**Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn :**

# Polisi Gwisg Ysgol

**Cyflwyniad**

Ein polisi yw y dylai pob plentyn wisgo gwisg ysgol pan yw'n mynychu'r ysgol, neu pan fydd yn cymryd rhan mewn digwyddiad a drefnwyd gan yr ysgol tu allan i oriau ysgol arferol. Rydym yn darparu rhestr lawn o'r eitemau sydd eu hangen ar gyfer y wisg ysgol ym mhrospectws ein hysgol.

## Nodau ac Amcanion

Mae ein polisi yn seiliedig ar y syniad o fod gwisg ysgol:

- yn hyrwyddo synnwyr o falchder yn yr ysgol;
- yn creu teimlad o gymuned ac o berthyn;
- yn ymarferol ac yn drwsiadus;
- yn cysylltu'r plant â'r ysgol;
- nad yw'n tynnu sylw yn y dosbarth (fel y gall
- dillad ffasiwn ei wneud)
- yn peri i blant deimlo'n gyfartal â'i gilydd yn nhermau gwedd;
- yn cael ei gweld yn addas, a'i hystyreid yn werth da am arian, gan y rhan fwyaf o rieni;
- wedi cael ei chynllunio gyda iechyd a diogelwch mewn golwg.

## Gwisg ysgol dyddiol

- Sgert llwyd/ Trowsus hir llwyd/ Trowsus byr llwyd
- Crys polo coch neu gwyn yr ysgol
- Sanau pen-glin gwyn /Sanau llwyd
- Crys chwys coch yr ysgol
- Crys gwyn a thei (gwig ffurfiol)
- Esgidiau du

## Gwisg asddysg gorfforol/Chwaraeon

- Crys T Parc y Tywyn / Crys T llysoedd / Crys T plaen gwyn
- Gwaelodion (shorts neu dracwisg) du plaen
- Esgidiau 'trainers'.

## Gemwaith

Ar sail iechyd a diogelwch nid ydym yn caniatáu i blant wisgo gemwaith yn ein hysgol. Yr eithriadau i'r rheol hon yw stydiau clust-dlysau mewn clustiau wedi'u tyllu. Byddwn yn gofyn i'r plant dynnu'r pethau hyn yn ystod gwersi Addysg Gorfforol.

## Esgidiau

Mae'r ysgol am i'r holl blant dyfu'n oedolion iach. Credwn ei bod yn beryglus i blant wisgo esgidiau â gwadnau platfform neu sodlau uchel yn yr ysgol, felly ni fyddwn yn caniatau hyn.

## Rôl Rhieni a Gofalwyr

Gofynnwn i bob rhiant sy'n anfon eu plant i'n hysgolion gefnogi'r polisi gwisg ysgol. Credwn fod dyletswydd ar rieni i anfon plant i'r ysgol wedi eu gwisgo'n iawn ac yn barod ar gyfer eu gwaith ysgol beunyddiol. Dylai rhieni sicrhau fod y wisg gywir gan eu plant, a'i bod yn lân ac yn drwsiadus.

Os hoffai unrhyw riant i'r ysgol newid ei pholisi gwisg ysgol, dylent drafod y peth yn y lle cyntaf gyda'r pennaeth. Mae'r ysgol yn croesawu plant o bob cefndir a chymuned o ffydd. Os oes yna resymau o ddifrif, er enghraifft gwrthwynebiad crefyddol, i rieni ddymuno i'w plant wisgo dillad gwahanol i'r wisg ysgol, bydd yr ysgol yn ystyriedg cais o'r fath â chydymdeimlad. Yn yr un modd, os bydd rhan o'r wisg ysgol yn peri anhawster i ddisgybl ag anabledd, dylai rhieni dynnu sylw'r pennaeth at hyn. Ni fydd yr ysgol yn trin disgyblion ag anabledd yn anffafriol.

## Swyddogaeth y Llywodraethwyr

Mae'r corff llywodraethu yn cefnogi'r pennaeth wrth weithredu'r polisi gwisg ysgol. Bydd yn ystyried pob sylw gan rieni ar y polisi hwn, ac yn cydweithio â'r pennaeth i sicrhau fod y polisi yn cael ei weithredu'n deg a chyda sensitifrwydd.

Cyfrifoldeb y llywodraethwyr yw sicrhau bod y wisg ysgol yn diwallu'r holl anghenion cenedlaethol parthed cyfleoedd cyfartal, a bod ein polisi gwisg ysgol yn gydnaws â'n polisi ar gyfleoedd cyfartal.

Mae'r llywodraethwyr yn sicrhau bod y polisi gwisg ysgol yn helpu'r plant i wisgo'n synhwyrol, mewn dillad sy'n para'n dda, yn ddiogel ac yn ymarferol.

## Monitro ac Adolygu

Wrth fonitro'r polisi hwn, drwy ei waith pwyllgor, bydd y corff llywodraethu yn:

- ceisio barn rhieni, i sicrhau eu bod yn cytuno â'r polisi,
- ac yn ei gefnogi;
- ystyried, gyda'r pennaeth, unrhyw geisiadau oddi wrth
- rieni i ganiatau i blant unigol gael eithriadau arbennig;
- gofyn i'r pennaeth roi adroddiad i'r llywodraethwyr o'r modd y mae'r polisi yn cael ei weithredu.

Caiff y polisi hwn ei adolygu gan y corff llywodraeth os credir bod hynny'n angenrheidiol.

| | *Enw* | *Llofnod* | *Dyddiad* |
|---|---|---|---|
| Cadeirydd y Llywodraethwyr | Mr M Davies | *MDavies* | 1/09/25 |
| Pennaeth yr Ysgol | Mrs A Williams | *AWilliams* | 1/09/25 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Adolygu | Mai 2026 |